# CYMDEITHAS HANES DOLWYDDELAN

## Ystafell Gyfrifiaduron, Ysgol Dolwyddelan 7.00yh

**4ydd Rhagfyr** - Steffan ab Owain - Y Twnnel Mawr ar y Rheilffordd.

**5ed Chwefror** - Jane Kenny - Bwyeill Cerrig Neolithig.


\- - - - -

## COFIO MILWYR YR UD O'R AIL RYFEL BYD YN Y BONT RUFEINIG.



Byddwn yn dathlu 80 mlwyddiant D-Day y flwyddyn nesaf. Gan hynny bydd Cymdeithas Hanes Dolwyddelan yn mynd ati i gymryd rhan mewn prosiect i osod hysbysfwrdd, uwchlaw'r cae, lle ym Mehefin 1944 gwersyllodd milwyr yr 83fed Adran Troedfilwyr, Byddin America yno, yn ystod symudiadau tir, cyn iddyn nhw gymryd rhan yn ymosodiad y cynghreiriaid ar Ewrop.

Bydd yr hysbysfwrdd yn adrodd hanes sut bu llifogydd sylweddol yn y gwersyll yn sgil glaw trwm, a thaith y dynion dewr wedi hynny a oedd yn rhan o frwydr arfog farwol gyda'r lluoedd gwrthwynebol, ddyddiau'n unig ar ôl gadael Dolwyddelan.




## CALENDR Y GYMDEITHAS HANES 2024

12 mis o luniau hanesyddol o'n dyffryn **£8**
Gwerthwyd er budd Hysbysfwrdd y Bont Rufeinig. Bydd yr holl arian sy'n weddill ar ôl argraffu'n mynd tuag at yr apêl.

## JUSTGIVING

Mae tudalen Justgiving wedi'i hagor ar gyfer unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes Dolwyddelan, neu'r Bont Rufeinig, ac a fyddai'n fodlon cyfrannu tuag at yr apêl. Rydym yn gobeithio codi £550, ac yna bydd yr **Ymddiriedolaeth Borzello** yn garedig iawn yn cynnig cyllid cyfatebol (hyd at £500).

Byddwn yn cadw unrhyw arian y tu hwnt i'r swm hwnnw yng nghyfrif y Gymdeithas Hanes, a chaiff ei glustnodi tuag at brosiectau tebyg eraill.

www.justgiving.com/crowdfunding/pontrufeinig-romanbridge-noticeboard
Facebook: Lledr Valley - Dolwyddelan History